Centre for Alternative Technology
Canolfan y Dechnoleg Amgen

## DISGRIFIAD SWYDD

| | |
|---|---|
| **Teitl:** | Swyddog Marchnata a Chyfathrebu |
| **Maes Cyfrifoldeb:** | Hyrwyddo gweithgareddau CYDA trwy weithgarwch marchnata a chyfathrebu |
| **Yn gyfrifol i:** | Cyd Benaethiaid Marchnata a Chyfathrebu |
| **Yn gyfrifol am:** | Dim cyfrifoldebau fel rheolwr llinell |
| **Math o gontract:** | Parhaol |
| **Gradd Cyfrifoldeb:** | 4 |
| **Cyflog:** | £24,174.5 |
| **Lleoliad:** | Gweithio yng nghanolfan eco CYDA, Machynlleth, Canolbarth Cymru yn rheolaidd a bydd rhywfaint o gyfle i wneud ychydig waith hyblyg gartref |
| **Oriau:** | Amser llawn: 37.5 awr yr wythnos |
| **Diwrnodau Gwaith:** | Dydd Llun i ddydd Gwener fel arfer, gan weithio gyda'r hwyr/ar benwythnosau o bryd i'w gilydd |
| **Dyddiad y DS:** | 02/08/2024 |

## AM GANOLFAN Y DECHNOLEG AMGEN

Mae Canolfan y Dechnoleg Amgen (CYDA) yn elusen amgylcheddol sy'n adnabyddus yn rhyngwladol, mae'n ganolfan eco flaenllaw ar lefel fyd-eang, ac yn un o ddarparwyr pennaf addysg amgylcheddol ôl-raddedig yn y DU, wedi'i lleoli ger Machynlleth ym Mhowys, Canolbarth Cymru.

Mae CYDA yn cynnig ysbrydoliaeth, addysg a hyfforddiant ynghylch datrysiadau i'r argyfwng hinsawdd a bioamrywiaeth.

Mae'r prif weithgareddau yn cynnwys canolfan ymwelwyr lle y gall pobl weld datrysiadau ar waith, cyrsiau preswyl byr, hyfforddiant galwedigaethol a graddau ôl-raddedig mewn ystod eang o bynciau sy'n ymwneud â chynaliadwyedd, a chynigir cyrsiau a digwyddiadau ar-lein law yn llaw â chyfleoedd dysgu wyneb yn wyneb.

## TROSOLWG O'R RÔL

Bydd y Swyddog Marchnata a Chyfathrebu yn canolbwyntio ar gynhyrchu cynnwys ysgrifenedig a gweledol o ansawdd uchel ar draws amrediad o gyfryngau, gan gynnwys cyfryngau cymdeithasol, cynnwys ar gyfer y we, negeseuon e-bost hyrwyddo, deunyddiau wedi'u hargraffu, datganiadau i'r wasg ac erthyglau nodwedd.

Gan weithio yn y tîm marchnata a chyfathrebu, byddwch yn hyderus wrth drosi strategaeth a chynllun marchnata a chyfathrebu CYDA yn gynnwys ysgrifenedig ar gyfer gwahanol lwyfannau a chyhoeddiadau. Bydd y rôl yn cynnig cymorth wrth hyrwyddo holl feysydd gwaith CYDA, gan gynnwys helpu gyda rhestru ar-lein a gwaith hysbysebu arall, cynorthwyo gyda digwyddiadau yn CYDA ac mewn mannau eraill.

Bydd gennych chi brofiad o ysgrifennu copi a golygu, a gallu amlwg i addasu eich copi i fod yn addas i wahanol lwyfannau a chynulleidfaoedd, yn ogystal â sgiliau prawfddarllen cadarn a llygad dda am y manylion.

Rydym yn aml yn gweithio yn unol â therfynau amser tynn, felly byddwch yn hapus i weithio'n gyflym ac yn effeithiol i greu cynnwys cadarn ac a fydd yn cael effaith, gan gefnogi'r strategaeth farchnata a chyfathrebu.

Mae hon yn rôl allweddol wrth helpu i gynorthwyo a hyrwyddo cenhadaeth CYDA i ysbrydoli, hysbysu a galluogi dynoliaeth i ymateb i'r argyfwng hinsawdd a bioamrywiaeth.

## PRIF GYFRIFOLDEBAU

**Dyletswyddau cyffredinol**

- Cyfrannu at waith cynllunio a'r strategaeth farchnata a chyfathrebu.
- Cyfrannu at waith marchnata a chyfryngau ar draws CYDA yn ôl y gofyn.
- Cynnig cymorth a chyflenwi yn lle eraill yn y tîm yn ôl y gofyn.
- Cynnig cymorth gyda dyletswyddau gweinyddol gan gynnwys codio anfonebau, taflenni amser a'r holl waith papur arall.
- Unrhyw ddyletswyddau priodol eraill sy'n cael eu diffinio gan y rheolwyr adrannol.

**Dyletswyddau sy'n rhai penodol i'r Swyddog Marchnata a Chyfathrebu**

- Sicrhau a chreu cynnwys o ansawdd uchel sy'n cefnogi cynlluniau cyfathrebu a marchnata.
- Ysgrifennu, golygu copi a phrawfddarllen cynnwys gan gynnwys blogiau ar gyfer gwefan CYDA a chylchgrawn mewnol CYDA ar gyfer ei chefnogwyr, Clean Slate, a chyfathrebu allweddol arall ar draws y sefydliad.
- Gweithio gyda'r Swyddog Marchnata Digidol a'r Cyd Benaethiaid Marchnata a Chyfathrebu er mwyn cynllunio, ysgrifennu a golygu cynnwys ar gyfer y cyfryngau cymdeithasol, gan gynnwys copi ar gyfer fformatiau amlgyfrwng.
- Cynllunio a chipio cynnwys fideo a lluniau o weithgareddau CYDA at ddibenion hyrwyddo a chyfathrebu.
- Cynorthwyo pob agwedd ar weithgarwch hyrwyddo CYDA, gan gynnwys mynychu digwyddiadau a ffeiriau, gosod hysbysebion a diweddaru gwaith rhestru ar-lein, a hyrwyddo trwy gyfrwng rhestrau postio allanol, taflenni hysbysebu, posteri ac ysgrifennu cyflwyniadau.
- Gweithio gyda dylunydd graffig CYDA er mwyn helpu i gynhyrchu deunydd hysbysebu i'w argraffu.

- Archwilio'n rheolaidd bod deunyddiau hyrwyddo ar y safle ar gael a'u bod yn cynrychioli'r sefyllfa ddiweddaraf.
- Gwneud gwaith ymchwil y farchnad a dadansoddi er mwyn cyfrannu at strategaethau hyrwyddo.
- Bod yn ymwybodol o'r materion a'r datrysiadau amgylcheddol diweddaraf.
- Cyflawni tasgau gweinyddol dyddiol er mwyn cynorthwyo gweithgareddau'r adran.

| MANYLEB PERSON | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Disgrifiad** | | **Hanfodol** | **Dymunol** | **Sut y caiff ei werthuso** |
| *Addysg a chymwysterau* | | | | |
| a | Addysg gyffredinol dda | * | | Ffurflen gais a thystiolaeth o gymhwyster |
| b | Cymhwyster proffesiynol perthnasol | | * | |
| *Gwybodaeth a phrofiad* | | | | |
| c | Gwybodaeth dda am egwyddorion a thactegau marchnata a chyfathrebu | | * | Ffurflen gais, cyfweliad a geirda |
| d | Profiad o weithio yn y trydydd sector | | * | |
| e | Profiad o ysgrifennu copi a golygu copi | * | | |
| f | Profiad o gynhyrchu/addasu copi ar gyfer amrediad o wahanol gynulleidfaoedd a llwyfannau | * | | |
| g | Profiad o ddelio â therfynau amser a phrosiectau lluosog | * | | |
| h | Gwybodaeth ymarferol dda o faterion a datrysiadau amgylcheddol | * | | |
| i | Profiad o gyflawni rôl ym maes marchnata, gwerthu neu ddelio â chwsmeriaid | * | | |
| *Dawn a sgiliau* | | | | |
| j | Sgiliau cyfathrebu ysgrifenedig rhagorol | * | | Ffurflen gais, cyfweliad a geirda |
| k | Sgiliau cyfathrebu rhyngbersonol cadarn | * | | |
| l | Sgiliau trefnu a rheoli amser rhagorol, gan gynnwys y gallu i gwblhau gwaith yn unol â therfynau amser tynn | * | | |
| m | Yn gallu cyfathrebu'n rhugl yn Gymraeg | * | | |
| n | Sgiliau TG cadarn | * | | |
| *Rhinweddau personol* | | | | |
| o | Yn gallu gweithio mewn ffordd effeithiol mewn tîm | * | | Ffurflen gais, cyfweliad a geirda |
| p | Yn gallu gweithio heb fod yn destun goruchwyliaeth a chyfeirio eich gwaith eich hun | * | | |
| q | Yn gallu ac yn barod i gynnal cyfrinachedd absoliwt gyda gwybodaeth sensitif | * | | |
| *Amgylchiadau* | | | | |
| r | Yn gallu ac yn barod i weithio mewn ffordd hyblyg | | * | Ffurflen gais, cyfweliad a geirda |
| s | Yn barod i deithio o bryd i'w gilydd i fodloni galwadau sy'n gysylltiedig â'r swydd | * | | |
| t | Empathi gydag ethos a gwerthoedd craidd CYDA | * | | |

Mae er eich budd chi eich bod yn nodi mewn ffordd amlwg yn eich cais sut yr ydych yn bodloni'r meini prawf a nodir a chyfrifoldebau'r swydd.  Fe'ch anogir i gynnig enghreifftiau perthnasol ac amlwg.